adnabod bardd

menna elfyn

Enw
Menna Elfyn

Dyddiad Geni
1 Ionawr 1951

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?
Cefais fy ngeni yng Nghwm Tawe ond wedyn fe symudodd y teulu i gyffiniau Caerfyrddin pan oeddwn yn dair ar ddeg oed.

Ble cawsoch chi eich addysg?
Ysgol Gynradd Ynysmeudwy, Ysgol Ramadeg Pontardawe, ac Ysgol Ramadeg y Frenhines Elisabeth, Caerfyrddin. Yna, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Aberystwyth.

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?
Rwy'n cofio hoffi'r ysgol gynradd, ond erbyn imi gyrraedd yr Ysgol Uwchradd roedd yn gas gennyf unrhyw ddysgu ffurfiol. Darllen a sgrifennu oedd y ddau beth a wnawn orau, er fe wnes i fwynhau Cerddoriaeth hefyd – yn enwedig canu'r delyn. Dwi'n teimlo'n euog nad wyf wedi rhoi tro arni ers blwyddyn neu ddwy bellach.

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?
Trin gwallt on i eisie ei wneud, ond roeddwn yn berson swil iawn a go brin y byddwn wedi bod o unrhyw werth yn siarad â phobl wrth dorri eu gwalltiau!

Beth oedd eich hoff lyfr pan yn blentyn?
Roeddwn yn hoffi llyfrau a chwedlau o bob math, *Brynhyfryd*, gan Eigra Lewis Roberts, a llyfrau Kate Roberts hefyd.

Beth yw eich prif ddiddordebau?
Darllen mae'n debyg, a llyncu gwybodaeth o bob math a all helpu i ymestyn fy nawn sgrifennu. Rhai sâl yw awduron am ddiddordebau achos mae bod yn awdur yn golygu eich bod yn ymddiddori bob awr o bob dydd ym mhob pwnc dan haul.

Beth sy'n eich gwylltio chi?
Rhyfela, a geiriau slic gwleidyddion yn treio cyfiawnhau rhyfela er mwyn rheoli pobloedd eraill.

Pa un oedd eich llyfr cyntaf?
Mwyara a gyhoeddwyd gan Wasg Gomer.

Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd i sgrifennu?
Na, dyw sgrifennu ddim yn dod yn hawdd ond rhaid rhoi fy mhen i lawr a gweithio'n ddyfal am awr neu ddwy, ac yna fe fydd y llaw yn gwneud y gwaith drosof.

O ble rydych chi'n cael eich syniadau?
O bobman. Wrth lechu ar bwys cownteri siopau yn gwrando ar dameidiau o sgyrsiau, darllen papur newydd, dysgu geiriau, darllen Geiriaduron neu Wyddoniaduron.

Oes ganddoch chi gyngor i rywun sy'n trio sgrifennu?
Gweld sgrifennu fel ffrind gorau. Ymddiried ynddo. Bod yn ffeind wrtho hefyd.

Pa un o'ch llyfrau chi yw eich ffefryn?
Cusan Dyn Dall a gyhoeddwyd yn 2001, er fe ddylwn ddweud mai'r llyfr rwy'n gweithio arno ar hyn o bryd yw'r un gore.

Pa un yw eich hoff gymeriad?
Bachgen o'r enw Abu yn *Rana Rebel*. Does dim llawer o ran ganddo'n y nofel ond mae e yn fy meddwl i o hyd a dwi'n ysu i gael cyfle i sgrifennu amdano.

Oes unrhyw beth yr hoffech chi ei newid amdanoch eich hunan?
Gormod i'w rhestru! Mae'r gyfrol nesa yn edrych ar yr holl bethau na allaf eu gwneud.

Pa raglenni teledu yw eich ffefrynnau?
Cold Feet ac *Ally McBeal*, yn enwedig y caneuon.

Beth yw eich hoff fwyd?
Cyrri poeth a Moussaka.

Beth sy'n gwneud i chi chwerthin?
Neb fel fy ngŵr. A'r plant – yn enwedig pan maen nhw'n gwneud hwyl am fy mhen, achos yn y bôn dwi'n gwybod eu bod yn fy ngharu i! Wel, gobeithio wir!

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL
2003

LLUNIAU: S4C a Paul Bode

gwales.com

Fe'm ganed yng Nghwm Tawe, mewn cwm bach hapus, cyn symud i Gaerfyrddin. Roedd yn gyfnod reit anodd, adeg Tryweryn, ac yna'r Arwisgo, a finne'n dipyn o rebel yn strancio yn erbyn popeth. Adeg rhyfel Fietnam hefyd, a minnau bob nos yn gwylio pentrefi'n cael eu llosgi'n ulw a phlant yn rhedeg allan o'u tai a'u croen ar dân.

Alla i ddim dweud imi gael llencyndod hapus, felly, am fod pethau'r byd yn gwasgu arnaf. Dyna pryd y dechreues i gadw dyddiadur fel ffordd o ddod i ben â byw mewn byd mor gas. Roeddwn i hefyd mewn ysgol hollol Seisnig ac felly roedd cadw dyddiadur a nodiadau yn ffordd o siarad â mi fy hun yn Gymraeg. Mae'n anodd i blant heddi ddeall y cyfnod yna.

Fe wnes i chwarae triwant fwy nag unwaith yn yr ysgol, ond dwi ddim yn cynghori neb arall i wneud hynny! Yna, mynd i Brifysgol ac astudio Cymraeg er mai Athroniaeth oedd fy mhrif ddiddordeb. Ond byddwn yn cael darllen barddoniaeth ar gyfer fy ngradd!

Un swil iawn oeddwn i bryd hynny, ac yn rhy ofnus i gystadlu hyd yn oed. Byddai hynny'n golygu gorfod mynd ar lwyfan a phethe felly. Ac eto, doeddwn i ddim yn meindio canu ac roeddwn yn perthyn i grŵp pop pan oeddwn yn yr ysgol. Fe wnaethon ni record hyd yn oed, ac ennill yn yr Urdd ar y gân bop wreiddiol.

Ond, o edrych yn ôl, roedden ni'n grŵp ofnadwy, mewn gwirionedd!

Bryd hynny, os oeddech yn gallu dal gitâr a chwarae ambell gord, roeddech yn cael eich ystyried yn gerddor.

Mae'n bosib dysgu sut i sgrifennu os ydych am fod yn awdur. Mae'n fater o ddarllen digon, cadw llyfr a sgrifennu ynddo bob dydd a chasglu geiriau newydd. Ac yna, fe ddaw'r syniadau. Credwch fi. Achos dyna ddigwyddodd i mi.

Menna Elfyn oedd Bardd Plant Cymru 2002 – 2003

Rana Rebel (2002)
Gomer £4.95
(nofel ar gyfer darllenwyr oed 12 – 16)

Ffŵl yn y Dŵr – Casgliad o Gerddi i Bobl Ifanc (1999)
Gomer £5.50
(Casgliad o gerddi amrywiol gan 11 o feirdd cyfoes a olygwyd gan Menna Elfyn)

Madfall ar y Mur (1993)
Gomer £3.95



Caneri Pinc ar Dywod Euraid
Cerddi Bardd Plant Cymru 2002–3 a Beirdd Ifanc Cymru (2003)
Hughes £4.99

Ceir cerddi gan Menna Elfyn hefyd mewn nifer o gyfrolau o farddoniaeth:

Odl a Chodl
Lolfa £3.95

Sbectol Inc – Casgliad o Gerddi
Lolfa £7.95

Poeth! – Cerddi Poeth ac Oer
Lolfa £4.95